# P.H. JONES ac anturiaethau'r AMSERAU

CYHOEDDWYD y rhifyn cyntaf o'r *Amserau* a argraffwyd yn Ynys Manaw ar 28 Gorffennaf 1848 ar ôl bwlch o fis yn ymddangosiad y newyddiadur. Er mwyn pwysleisio'r bwriad o'i ddwyn allan yn wythnosol o hyn ymlaen, newidiwyd ei deitl tra oedd ym Manaw i'r *Amserau Wythnosol a'r Hysbysydd Cyffredinol*.

Manteisiwyd ar y cyfle hefyd i ddechrau cyfres newydd o'r newyddiadur, gan gyfrif rhif 117 o'r gyfres wreiddiol (sef y rhifyn cyntaf i'w gyhoeddi yn Douglas) fel y rhifyn cyntaf o'r ail gyfres.

Dylid sylwi, felly, mai 691 rhifyn o'r *Amserau* a gyhoeddwyd rhwng 1843 ac 1859, nid 575 fel y dywedwyd yn yr ysgrif gyntaf.

Argraffydd yr *Amserau* yn Douglas oedd Robert Fargher (1803-63), gŵr a gydymdeimlai â'i egwyddorion. Ers 1833 cyhoeddai *Mona's Herald*, newyddiadur Manawaidd a fynegai safbwynt radicalaidd ac anghydffurfiol mewn modd beiddgar dros ben: yn wir, cafodd Fargher ei garcharu am enllib am yr ail waith ddechrau 1848.

Gan iddo ddioddef colledion ariannol sylweddol yn ystod y tri mis y bu'n garcharor 'roedd yn awyddus iawn i gael rhagor o waith argraffu pan gynigiwyd y cyfle i gynhyrchu'r *Amserau* iddo.

'Roedd ganddo gryn dipyn o brofiad o argraffu eitemau ar gyfer eu dosbarthu'n ddi-dreth drwy weddill gwledydd Prydain oherwydd ei gefnogaeth cryf o'r mudiad llwyrymwrthodol.

Gwyddom iddo, er enghraifft, brynu peiriant argraffu (yn ôl pob tebyg yr un a ddefnyddiwyd ar gyfer yr *Amserau*) er mwyn argraffu'r *British Temperance Advocate*, cylchgrawn â chylchrediad, yn ôl ei gefnogwyr, o ddeg mil o gopïau ym Mhrydain a thramor.

Er bod Fargher yn gefnogol i egwyddorion yr *Amserau*, 'roedd yn rhaid ei dalu yn wythnosol am argraffu'r newyddiadur. Erfyniai John Lloyd felly ar y derbynwyr i dalu amdano ymlaen llaw ac i wneud hynny bob chwech wythnos yn hytrach na phob chwarter er mwyn sicrhau digon o arian mewn llaw.

Fel canlyniad i ryddhau'r *Amserau* o lyffetheiriau'r dreth, gostyngwyd ei bris o dair a dimai i ddwy geiniog ac fe gododd y cylchrediad yn fuan o ddwy fil bob pythefnos i dair mil yr wythnos. Gostyngwyd pris hysbysebion o leiafswm o hanner coron yr un i swllt yr un.

Mae'n debyg y byddai hyn wedi cynyddu nifer yr hysbysebion yn sylweddol cyn hir fel y digwyddodd ar ôl diddymu'r dreth ar hysbysebion yn 1853 ond bu'n rhaid i'r *Amserau* ddychwelyd i Lerpwl cyn i'r rhan hon o'r fenter ddwyn ffrwyth.

* * *

BRAWYCHWYD Toriaid ac Eglwyswyr gogledd Cymru pan welsant yr *Amserau*'n cael ei droi'n wythnosolyn. 'Roeddent eisoes wedi cael eu symbylu ganddo i sefydlu pythefnosolyn eglwysig, *Y Cymro*, ym Mangor ddechrau 1848.

Dan olygyddiaeth Hugh Williams, 'Cadfan', ymosodai'r *Cymro* yn groch ac yn gyson ar yr *Amserau* hyd yn oed cyn iddo symud i Douglas: ddiwedd Ebrill 1848, er enghraifft, soniai am 'gors yr *Amserau*, lle rhy aflan i unrhyw greadur, oddieithr Gelen Bendwll'.

Ymffyrnigodd *Y Cymro* ymhellach o ganol Awst ymlaen: ni fynnai, yn ôl y golygydd, fanteisio fel yr *Amserau* ar 'dwll yn y gyfraith'. 'Roedd symud i Ynys Manaw yn 'anonest mewn egwyddor ac yn warthus mewn ymarferiad'.

Ym marn llythyr 'Gwladgarwr' a gyhoeddwyd yn rhifyn 26 Awst, 'roedd Manaw 'gwedi ei chyfnewid i ryw fath o uffernbwll, o'r hwn y chwdir egwyddorion Siartiaeth a mympwyon eraill à la France'.

Ond er i enw da Cymru 'syrthio yn ysglyfaeth i egwyddorion penrhydd a Siartaidd yr *Amserau*' nid oedd neb yn barod i'w dderbyn ond fel 'smuggled goods' ac erbyn hyn 'roedd argoelion fod y llywodraeth 'yn bwriadu cymeryd y smugglers haerllug hyn dan eu gofal penodol'.

Cyn diwedd Awst, atebodd yr *Amserau* yr ymosodiad a wnaed 'yn holl gynddaredd nerth gwybedyn' gan 'lygoden eglwys Bangor' trwy bwysleisio nad oedd cyhoeddi'r *Amserau* yn Douglas yn anghyfreithlon; yn wir, mynnai Lloyd iddo geisio barn yr awdurdodau ynglŷn â'r gyfraith cyn mentro symud y newyddiadur yno.

Yr ateb a gafodd oedd y byddai angen deddf newydd cyn i'r hyn a wnaed ganddo fod yn anghyfreithlon.

* * *

OND, fel y gwyddai Lloyd ac fel yr awgrymwyd gan 'Gwladgarwr', 'roedd deddf newydd ar y gweill erbyn hyn. Ddechrau Awst mewn cyfarfod o offeiriaid a gwŷr bonheddig Toriaidd ym Mangor fe benderfynwyd dwyn cyhoeddi'r *Amserau* ym Manaw i sylw'r awdurdodau yn Llundain.

Mae'n amlwg i'r adroddiad gamliwio safbwynt gwleidyddol y newyddiadur a gorliwio ei gylchrediad. Er bod yr *Amserau* yn elyn cyson i'r Siartwyr (ceir adroddiad anffafriol dros ben o gyfarfod Siartaidd yn Lerpwl yn rhifyn 6 Ebrill 1848, er enghraifft) mae'n debyg i'r adroddiad a ddanfonwyd i Lundain ei gyhuddo o'u cefnogi.

O ran y cylchrediad, 'roedd Canghellor y Trysorlys, yn ôl *Y Cymro*, o dan yr argraff fod ugain mil o gopïau yn cael eu danfon yn rheolaidd i Gymru!

Yn wyneb chwyldro ar y Cyfandir a bwgan Siartaeth ym Mhrydain, fe ymatebodd y Llywodraeth yn gyflym i sialens yr *Amserau*. Daethpwyd â deddfwriaeth newydd, y *Postage on Newspapers (Channel Islands) Bill*, gerbron y Senedd ar 24 Awst ac fe'i pasiwyd ar y 29fed o'r mis.

Amcan y ddeddf oedd rhoi terfyn ar yr hyn a elwid gan Ganghellor y Trysorlys yn 'gross fraud' trwy orchymyn i Swyddfa'r Post godi pris llythyr am gludo pob newyddiadur neu gylchgrawn o'r ynysoedd i weddill Prydain.

Oherwydd pwysau'r eitemau hyn byddai'n rhaid talu pedair ceiniog am eu danfon trwy'r post yn hytrach na'r cludiad di-dâl a roddwyd i gyhoeddiadau a oedd yn dwyn stamp geiniog y dreth.

Byddai cyhoeddiadau Manaw ac Ynysoedd y Sianel felly yn llawer iawn drutach na chyhoeddiadau'r tir mawr unwaith y deuai'r ddeddf i rym.

Gorfoleddodd *Y Cymro* ddechrau Medi mai 'yr anrhydedd mwyaf a gafodd yr *Amserau* erioed oedd tynnu Act of Parliament ar ei ben' ac yn ddiweddarach yn y mis bu unwaith eto yn dwyn llu o gyhuddiadau yn ei erbyn, megis 'peri anghytundeb rhwng bach a mawr . . . magu ysbryd grwgnach . . . ceibio dan sylfaen fflywodraeth Prydain Fawr . . . cael yr Eglwys i lawr a dwyn i fewn genllif anffyddiaeth megis yn Ffrainge'.

* * *

YN Y cyfamser cydnabu Lloyd y byddai'n rhaid i'r *Amserau* ddychwelyd i Lerpwl. Ceisiodd farn y darllenwyr ddiwedd Awst ynglyn â'r pris y byddent yn barod i'w dalu amdano wedi ei stampio, gan ddweud ar 8 Medi bod y mwyafrif o blaid talu tair ceiniog yr wythnos am yr *Amserau* fel yr oedd yn hytrach na dwy geiniog a dimai am bapur ychydig yn llai.

Cyhoeddwyd y rhifyn olaf ym Manaw (rhif 9, wedi ei gamrifo'n '8') ar 22 Medi. Yn hwn, mynnodd Lloyd nad y ddeddf newydd yn unig a oedd yn gyfrifol am yrru'r *Amserau* yn ôl i Lerpwl.

Bu llawer o ddarllenwyr yn cwyno eu bod yn hwyr iawn yn derbyn yr *Amserau* – er i Lloyd sicrhau bod y papur yn dal llong nos Iau o Douglas fel y gellid ei ddosbarthu o Lerpwl ar ddydd Gwener, ni fyddai llawer yng Nghymru yn ei dderbyn tan y Sul.

Gan na feiddiai neb, wrth gwrs, ei ddarllen ar y Saboth byddai'n ddydd Llun cyn y gallai nifer sylweddol o dderbynwyr ddarllen newyddion a ddanfonwyd i Lerpwl erbyn y dydd Mawrth blaenorol. 'Roedd y papur yn hwyrach byth ar adegau pan oedwyd y llong bost gan stormydd.

Gellid disgwyl y , byddai pethau'n waeth o lawer yn ystod yr hydref a'r gaeaf, nid yn unig oherwydd y dirywiad yn y tywydd ond hefyd oherwydd bod llawer llai o longau'n hwylio'n rheolaidd rhwng Lerpwl a Douglas yr adeg honno o'r flwyddyn. Dyma, yn ôl Lloyd, oedd y prif reswm paham y bu'n rhaid dychwelyd i Lerpwl.

Ar ôl bwlch o fis, fe gyhoeddwyd rhif 10 o'r ail gyfres yn Lerpwl ar 26 Hydref, gan ddefnyddio peiriant argraffu a brynwyd gan Lloyd yn y cyfamser. Yn anffodus, ni fedrai fforddio peiriant newydd ac fe achosodd diffygion mecanyddol y peiriant gryn dipyn o drafferth iddo yn ystod y misoedd canlynol.

Mewn erthygl olygyddol fe ymffrostiwyd fod y gwerthiant wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod ym Manaw ac fe ymosodwyd unwaith eto yn hallt ac yn aneciwmenaidd ar yr hen elyn: 'Prif ohebwyr y *Cymro* ydynt hen wehilion Ymneilltuaeth, creaduriaid na feddent ddigon o dalent i allu sefyll a byw ar y tir uchel hwnnw; a chan hynny a ymostyngent mor isel a'r Eglwys Wladol'.

* * *

OND ER gwaethaf ei feiddgarwch, tywyllodd rhagolygon yr *Amserau* ddiwedd 1848 a dechrau 1849. Erbyn canol Tachwedd 'roedd y gwerthiant wedi disgyn i lai na dwy fil a hanner, ac erbyn Mawrth 1849 nid oedd yn fwy na dwy fil.

Bu'n rhaid i Lloyd hysbysu, ar 8 Mawrth, ei bod yn rhaid iddo godi pris yr *Amserau* i dair ceiniog a dimai ddechrau Ebrill. Esboniodd fod pob rhifyn yn costio deunaw punt i'w gynhyrchu; rhwng y stamp ceiniog a'r ddimai y copi a hawliwyd gan ddosbarthwyr nid oedd yn derbyn ond ceiniog a dimai y copi mewn llaw ar gyfer cynhyrchu y rhifyn canlynol.

Yn wir, ni allai ddibynnu ar gymaint â hynny oherwydd amharodrwydd llawer o'r derbynwyr a dosbarthwyr i dalu'n brydlon. O fewn ychydig wythnosau i'r codiad yn y pris, bu cwymp sylweddol pellach yn y gwerthiant i 1700.

Gyda dyfodol yr *Amserau* unwaith eto yn y fantol dechreuodd ei gefnogwyr drefnu gweithgareddau i'w gynorthwyo'n ariannol.

Mor gynnar â Thachwedd 1848 cynhaliwyd cyfarfod o 23 o'i gefnogwyr yn Nhanygrisiau er